






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Y Grŵp Cyngor Technegol

Datganiad Consensws ar Brofi Teithwyr  
sy'n Dychwelyd i Gymru o Ardaloedd lle  
mae Nifer yr Achosion o'r Feirws yn  
Uchel

11 Medi 2020



## Y Grŵp Cyngor Technegol: Datganiad Consensws ar Brofi Teithwyr sy'n Dychwelyd i Gymru o Ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r feirws yn uchel

- Bu'r Grŵp Cyngor Technegol yn trafod profi teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r feirws yn uchel ar 4, 8 ac 11 Medi 2020.
- Mae atal heintiadau newydd rhag cael eu cyflwyno i boblogaeth o'r tu allan i'r boblogaeth honno yn elfen hanfodol o ddull effeithiol o reoli clefydau.
- Mae'r profiad yr adroddwyd arno'n ddiweddar yng Nghymru mewn perthynas ag olrhain a phrofi cysylltiadau yn dangos bod nifer sylweddol o achosion yn dod i Gymru o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig sydd â nifer uwch o achosion o heintiadau SARS-CoV2.
- I ddechrau, cofnodwyd bod saith achos gweithredol o'r haint ar hediad o Zakynthos. Yn dilyn profi'r teithiwr cododd nifer yr achosion positif oedd yn gysylltiedig â'r hediad i 32.
- Oherwydd bod lefel drosglwyddo'r feirws yn y gymuned yn isel yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, mae cyfran sylweddol o glystyrau newydd o'r haint yn ymwreiddio o ganlyniad i deithio i mewn i'r wlad.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer bach o deithwyr, yn enwedig y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau risg uwch (e.e. mynd i glybiau nos, ddim yn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol neu sy'n dod i gysylltiad â llawer o bobl eraill) yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion sy'n dod i fewn i Gymru.
- Dangoswyd hefyd nad yw'r un unigolion yn cymryd rhan mewn trefniadau olrhain a phrofi cysylltiadau na chwariantin hyd yn oed wrth brofi'n positif. Hefyd, mae rhai teithwyr sy'n dychwelyd i'r wlad yn parhau i anwybyddu cyngor iechyd y cyhoedd ac yn parhau i ddod i gysylltiad â llawer o bobl eraill ac yn ymddwyn mewn modd peryglus hyd yn oed pan fyddant yn arddangos symptomau.
- Felly, cytunodd y Grŵp Cyngor Technegol y byddai ymyriadau iechyd y cyhoedd pellach yn helpu i nodi achosion newydd o'r haint ac yn atal digwyddiadau a chlystyrau pellach rhag ymwreiddio yng Nghymru.
- Mae'r argymhelliad ar gyfer profion dilyniannol ar deithwyr o ardaloedd lle ceir llawer o achosion o'r feirws yn gyson â chyngor y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau a gyhoeddwyd ar 18 Mehefin a 27 Awst 2020:
  - [Cofnodion 42<sup>ain</sup> cyfarfod SAGE](#)
  - [Datganiad Consensws SAGE ar Brofi Torfol](#)
  - [Datganiad Consensws SPI-M-I dyddiedig 17 Mehefin 2020](#)

- [Adroddiad cell modelu lechyd Cyhoeddus Lloegr ar effeithiolrwydd profi teithwyr sy'n cyrraedd y DU ddwywaith](#)
- [Adroddiad ar leihau'r risg o ryddhau unigolion sydd wedi cael canlyniad negatiff anghywir o gwarantinn teithwyr](#)
- Mae profi i ganfod y feirws SARS-CoV-2 (gan ddefnyddio prawf RT-PCR) mewn unigolion sydd heb unrhyw symptomau pan fo nifer yr achosion gweithredol o'r haint yn uchel yn cyd-fynd â chyngor y Grŵp Cyngor Technegol a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2020. <https://llyw.cymru/y-gell-cyngor-technegol-egwyddorion-defnyddio-prawf-rt-pcr-i-ganfod-sars-cov-2>

### Argymhellion:

- Dylid cytuno ar yr egwyddor o brofi teithwyr sy'n dod i Gymru o wledydd neu ranbarthau lle ceir mwy o achosion a'i gweithredu lle y bo'n briodol.
  - Dylai teithwyr o'r fath ddechrau cyfnod y cwarantinn yn ogystal â chael y prawf cysylltiedig cyn gynted ag y bo modd ar ôl dychwelyd i'r Deyrnas Unedig.
  - Dylid ystyried dulliau profi presennol a chanllawiau cysylltiedig sydd ar waith adeg eu gweithredu a'u cymhwyso.
  - Dylid cymryd samplau ar ddwy adeg wahanol. Dylid cymryd sampl ar gyfer y prawf cyntaf o fewn 1 diwrnod o ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig. A dylid cymryd sampl ar gyfer yr ail prawf o leiaf 7 diwrnod ar ôl y sampl gyntaf. Mae'r argymhelliad hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth fod cyfnod y cwarantinn yn dechrau ar yr un diwrnod ag y cyrhaeddir y Deyrnas Unedig.
  - Ni fyddai angen yr ail prawf os bydd y sampl gyntaf a gymerwyd ar ddiwrnod 1 yn bositiff. Dylai pobl sydd wedi profi'n bositiff ddilyn y canllawiau sydd ar gael ar hunanysysu yn achos cael prawf positiff.
  - Dylid rhoi ystyriaeth i'r opsiwn o ddiddymu'r gofyniad i gyfnod y cwarantinn barhau os bydd canlyniadau'r ddwy sampl yn rhai negyddol o dan yr amgylchiadau hynny y byddai'n briodol i wneud hynny. Dylid cymryd gofal ac ystyried sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu ynglŷn â gofynion cwarantinn ehangach, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu.
  - Dylai'r profion hyn fod yn orfodol, a dylid eu gorfodi drwy edrych ar y maniffestos hedfan neu fferi.
  - Dylid ystyried y llwybr profi sy'n darparu'r gyfradd ddychwelyd uchaf, gan gydnabod bod rhaid ystyried dulliau cyflawni gweithredol a logisteg yn llawn.
- Gallai'r rhain gynnwys:**

- profi mewn mannau cyrraedd
- darparu pecynnau profi gartref mewn mannau cyrraedd
- profi wedi i'r unigolion gyrraedd eu cyfeiriadau cartref

- Mae manteision ac anfanteision i bob opsiwn profi, e.e. cyfleustra i deithwyr sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, y seilwaith sydd ei angen, y gallu i brofi, a'r amser y mae'n ei gymryd i gael canlyniad. Bydd angen i'r opsiwn a roddir ar waith roi ystyriaeth i faterion cydymffurfio a gorfodi sydd hefyd yn gysylltiedig.
- Dylai'r gofyniad hwn i brofi hefyd fod yn berthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru. Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â thrafodaeth bolisi ehangach ar Addysg Uwch/Addysg Bellach yng Nghymru.
- Dylid ystyried gweithredu'r un egwyddor i deithwyr o ardaloedd lle ceir mwy o achosion o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cydnabod y gallai hynny fod yn fwy heriol.
- Lle y bo'n bosibl, dylai'r profion uchod hefyd gynnwys profion am feirysau ffliw drwy brofion amlbleth, gyda'r canlyniadau'n cael eu hintegreiddio i lwybrau presennol i gadw gwyliadwriaeth ar y ffliw.
- Dylid defnyddio dull dilyniannu genomig ar gyfer samplau positif er mwyn i'r wybodaeth honno fynd yn sail i'n dealltwriaeth o rôl ffynonellau allanol yr haint o ran epidemioleg COVID-19 yng Nghymru.
- Dylid ceisio trafodaeth â chydweithwyr yng ngweinyddiaethau'r DU, er mwyn sicrhau dull cyson a chydgyssylltiedig. Dylai'r dull hwnnw gynnwys casglu, coladu a rhannu data profion cysylltiedig.
- Yn yr un modd, dylai'r llwybr profi a gynigir yma gael ei gydgysylltu a'i integreiddio ag unrhyw lwybr profi arall ar gyfer y cohort hwn, e.e. profi at ddibenion gwyliadwriaeth a arweinir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.